

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Chwefror 2019

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR PROFFESIYNOL IECHYD

Teitl: Cynnal parhad cyflenwad meddyginiaethau pe baem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd 'heb gytundeb'

Dyddiad Dirwyn i ben / Adolygu Bydd y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn parhau mewn grym tan iddo gael ei ddisodli.

Ar gyfer gweithredu gan:
Prif Fferyllwyr; Fferyllwyr Cymunedol; Meddygon Teulu; a Meddygfeydd Fferyllol

Angen gweithredu erbyn:
5 Chwefror 2019

Anfonwr: Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyswllt(cysylltiadau) Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:
Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Amgaead(au): Llythyr y Prif Swyddog Fferyllol

WHC/2019/005

Annwyl Gydweithiwr

**CYNNAL PARHAD CYFLENWAD
MEDDYGINIAETHAU PE BAEM YN GADAEL YR
UNDEB 'HEB GYTUNDEB'**

Diben

Darparu i gyrff y GIG yng Nghymru fanylion y mesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau parhad cyflenwad meddyginiaethau fel rhan o baratodau wrth gefn Llywodraeth y DU ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn gadael 'heb gytundeb'.

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddeall y risgiau i'r gadwyn gyflenwi meddyginiaethau pe bai'r DU yn gadael yr UE 'heb gytundeb' ar 29 Mawrth.

Mae cynlluniau wrth gefn wedi'u hen baratoi ar draws pob rhan o'r gadwyn gyflenwi meddyginiaethau ac mae camau'n cael eu cydlynu ar lefel y DU i sicrhau bod mesurau priodol ar waith i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl i'r cyflenwad meddyginiaethau yn sgil gadael yr UE.

Mae'n hollbwysig bod cyrff y GIG yn deall y camau lliniaru sy'n cael eu cymryd i leihau'r effaith ar y gadwyn gyflenwi a sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'n rhaid i gyrff y GIG sicrhau nad ydynt, trwy eu gweithredoedd eu hunain, 'yn torri ar draws' neu'n cyfaddawdu mesurau wrth gefn y DU.

Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol rôl hollbwysig yn darparu cyngor i gleifion ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflenwad meddyginiaethau. I sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i roi cyngor priodol ar gyflenwad meddyginiaethau i'r GIG pe bai'r DU yn gadael yr UE 'heb gytundeb', mae'r llythyr hwn yn nodi crynodeb o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Llywodraeth.

Gan y Prif Swyddog Fferyllol

Welsh Government Cathays Park Cardiff CF10 3NQ	Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ
--	--

WHC/2019/005

Dosbarthu'n electronig i:

Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Prif Fferyllwyr, Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl, Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Caffael, GIG
Cyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau Cymru, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Cymru
Cyfarwyddwr, Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, Cymru
Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru

I'w anfon ymlaen at:

Fferyllwyr caffael a thechnegwyr fferyllol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Fferyllwyr arolygol, fferylliaeth gymunedol Meddygon teulu

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Pharmacyand.PrescribingBranch@llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019
Gellir atgynhyrchu'r cylchlythyr hwn gan bwy bynnag sydd wedi'i dderbyn.

Asesiad o Gyflenwad Meddyginiaethau

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o gyflenwad meddyginiaethau i nodi cynhyrchion sy'n dod o'r UE neu wledydd Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ehangach.

Cyflenwad Chwe Wythnos

Ym mis Awst, ysgrifennodd Llywodraeth y DU at weithgynhyrchwyr fferyllol yn gofyn iddynt gael cyflenwad ychwanegol yn y DU, ar ben eu stociau byffer gweithredol busnes fel arfer, erbyn 29 Mawrth 2019. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos iawn gyda'r diwydiant i sicrhau bod cyflenwadau sylweddol o'r cyffuriau hyn yn y DU. Mae mwyafrif y gweithgynhyrchwyr eisoes wrthi'n ddiwyd yn hel yr isafswm o gyflenwad chwe wythnos o feddyginiaethau dros eu cyflenwadau presennol yn unol â cheisiadau Llywodraeth y DU, ac mae'r gwaith yn parhau gyda gweithgynhyrchwyr sydd eto heb gydymffurfio yn cael eu hannog i wneud hynny. Mae contractau wedi'u sicrhau ar gyfer capasiti storio ychwanegol, gan gynnwys lle storio ar gyfer cyffuriau a reolir, meddyginiaethau ategol ac wedi'u rhewi.

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda chyflenwyr brechlynnau i sicrhau ailgyflenwad parhaus o gyflenwad stoc presennol sylweddol y DU o frechlynnau.

Llwybrau Trafnidiaeth Amgen

Mae llwybrau trafndiaeth ar gyfer yr holl feddyginiaethau wedi'u hadolygu ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu gyda'r diwydiant ar gyfer llunio llwybrau gwahanol yn ôl yr angen. Mae'r Llywodraeth wedi cytuno y bydd meddyginiaethau a chynhyrchion meddygol yn cael eu blaenoriaethu ar lwybrau amgen i sicrhau i'r graddau mwyaf posibl bod modd i'r cyflenwadau gyrraedd yn ddirwystr ar ôl 29 Mawrth 2019. Mae hyn yn cynnwys cludo meddyginiaethau oes fer mewn awyrennau.

Pe bai'r DU yn gadael yr UE 'heb gytundeb', byddai'r capasiti cludiant ychwanegol a'r blaenoriaethu hwn yn cynnwys meddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau fferyllfeydd, meddyginiaethau rhestr sydd ar werth yn gyffredinol a meddyginiaetha didrwydded, gan gynnwys cynhyrchion arbennig a chynhyrchion meddygol ymchwiliadol a ddefnyddir mewn treialon clinigol, a brechlynnau.

Protocolau Prinder Difrifol

Cyflwynwyd diwygiadau i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol gerbron y Senedd ar 18 Ionawr er mwyn caniatáu i 'brotocolau prinder difrifol' gael eu rhoi ar waith ar gyfer meddyginiaethau presgripsiwn yn unig o dan amgylchiadau penodol. Bydd protocol prinder difrifol yn cael ei gyhoeddi dan amgylchiadau eithriadol yn unig a byddai clinigwyr yn rhan o hyn. Gall y protocol roi'r gallu i fferyllfeydd ddosbarthu meintiau llai, gwahanol gryfderau neu ffurf fferyllol wahanol ar feddyginiaeth a archebir ar bresgripsiwn. O dan rai amgylchiadau, gallai protocol alluogi fferylllydd i ddewis rhoi cynnyrch generig neu therapiwtig arall yn lle'r cynnyrch sy'n glinigol gyfwerth.

Gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd

Mae [gwefan](#) newydd Paratoi Cymru yn darparu un ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer effaith sylweddol Brexit 'heb gytundeb'.

Mae'n hanfodol bod ysbytai, meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol yn parhau i weithredu'n gyfrifol ac ystyried y canlyniadau posibl i gleifion a allai godi yn sgil gweithredu'n lleol, fel hel cyflenwadau meddyginiaethau neu gynyddu hyd cyfnodau presgripsiwn. Mae gweithredu o'r fath yn cyfaddawdu cynlluniau wrth gefn y DU a ddisgrifir yn y llythyr hwn, fe allai roi pwysau ar y meddyginiaethau sydd ar gael i gleifion mewn rhannau eraill o Gymru neu'r DU, ac felly **ni** ddylid gwneud hyn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Andrew Evans". The signature is written in a cursive style with a large initial 'A' and 'E'.

Andrew Evans

Prif Swyddog Fferyllol Cymru